# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 23/06/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gwella Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG

**C14 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau'r GIG yn well? OAQ(3)1571(HSS)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Fy mlaenoriaethau yw sicrhau bod gwasanaeth iechyd gwladol Cymru yn cael ei ddiwygio, gwella iechyd pobl a sicrhau eu bod yn cael gofal iechyd a chymdeithasol integredig o ansawdd uchel sy'n brofiad da i gleifion ac sy'n gallu ymateb yn hyblyg i'w hanghenion.

### Blaenoriaethau

**C15 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ(3)1609(HSS)

**Edwina Hart:** Dros y 12 mis nesaf, fy mlaenoriaethau yw cwblhau'r broses o roi ymrwymiadau 'Cymru'n Un' ar waith, gwella iechyd pobl a sicrhau eu bod yn cael gofal iechyd a chymdeithasol integredig o ansawdd uchel sy'n brofiad da i gleifion ac sy'n gallu ymateb yn hyblyg i'w hanghenion.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

### Trafnidiaeth Gyhoeddus

**C10 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn y gorllewin? OAQ(3)1522(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru wedi'u nodi yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Maent yn cynnwys gwella gwasanaethau rheilffordd a gwasanaethau bysiau lleol.

## Rheilffordd Glyn Ebwy

**C11 Trish Law:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisïau ar gyfer gwella gwasanaethau rheilffyrdd ar reilffordd Glyn Ebwy? OAQ(3)1515(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf wedi comisiynu Network Rail i gwblhau astudiaeth ddichonoldeb i archwilio opsiynau amserlennu a gwella'r seilwaith er mwyn darparu gwasanaeth bob awr rhwng Glynebwy a Chasnewydd, yn ogystal â'r gwasanaeth cyfredol i Gaerdydd. Bydd yr astudiaeth hefyd yn ystyried gorsaf newydd yng nghanol tref Glynebwy.

## Cadw Cefnffyrdd yn Glir

**C12 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gadw cefnffyrdd yn glir rhag sbwriel a llystyfiant sydd wedi gordyfu? OAQ(3)1560(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog**: Yr ydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yn cael ei gadw'n glir rhag sbwriel. Mae llystyfiant sydd wedi gordyfu'n cael ei dorri yn ôl fel rhan o'r gwaith cynnal a chadw cyffredinol.

## Gwasanaethau Rheilffordd i Lynebwy

**C13 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau rheilffordd i Lynebwy? OAQ(3)1510(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r gwasanaeth rheilffordd i Lynebwy yn llwyddiant ysgubol gyda dros 1.4 miliwn o deithwyr wedi defnyddio'r gwasanaeth hyd yn hyn.

## Cefnogi Busnesau Bach

**C14 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau bach? OAQ(3)1521(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Bydd rhaglen adnewyddu'r economi yn cynnwys adolygiad sylfaenol a chynhwysfawr o gymorth busnes a'r polisïau ehangach sy'n effeithio ar ddatblygiad economaidd. Bydd hyn yn dyngedfennol inni yn y dyfodol er mwyn creu amgylchedd ar gyfer twf sydd o fudd i bob cwmni.

## Sgiliau Twf Cymru

**C15 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Sgiliau Twf Cymru? OAQ(3)1551(ECT) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Ers cychwyn y cynllun ar 1 Ebrill cynhaliwyd tri chyfarfod o'r panel i asesu pa geisiadau sy'n gymwys. Adolygwyd cyfanswm o 19 o geisiadau, gydag wyth o'r rhain yn mynd ymlaen i ddatblygu cynllun hyfforddi. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth gan y ceisiadau eraill.